


## Symudyn troellog y ddaear

Defnyddiwch felynon, cochion a gleision cŵl i wneud y symudyn troellog y Ddaear chwyrliog hwn.

Ysbrydolir y prosiect hwn gan y graff isod. Mae'n dangos y tymheredd byd-eang cyfartalog ar gyfer pob mis, o 1850 i 2017. Mae'r tymheredd yn cynyddu wrth i chi symud i ffwrdd o ganol y cylch. Rydym yn gwybod fod ein hinsawdd yn newid ac ers y Chwyldro Diwydiannol, mae tymheredd cyfartalog y blaned wedi codi dros 1°C. Mae hwn yn newid cyflym o ran ein system hinsawdd fyd-eang. Yn flaenorol, deallir bod newidiadau byd-eang naturiol wedi digwydd dros gyfnodau llawer hirach o amser.



### Deunyddiau sydd eu hangen

- Cerdyn tenau
- Paent, beiros, pensiliau neu greonau
- Pensil arlunio
- Siswrn
- Glud
- Edafedd neu linyr



## Camau'r Gweithgaredd

**01** Tynnwch lun o amgylch gwrthrychau crwn o wahanol feintiau (e.e platiau, powlenni, cwpanau) i wneud cylchoedd consentrig ar eich cerdyn tenau.



**02** Paentiwch neu lliwiwch y cylch lleiaf gyda'r lliw mwyaf cŵl. Dewiswch liw cynhesach ar gyfer y cylch nesaf a gorffen gyda'r lliw cynhesaf ar y cylch allanol.






**03** Ar ddam o gerdyn ar wahân, lluniwch blaned Ddaear. Gallwch brintio, lliwio a thorri ein templed allan os yw'n well gennych.



**04** Torrwch eich gwaith celf cylch a'i roi wyneb i waered ar y bwrdd. Tynnwch lun troellog ar y cefn a thorrwch ar hyd y llinell yn ofalus gyda siswrn.





**05** Gludwch y blaned Ddaear fach yn y canol a thâpiwch ddarn o edafedd neu llyn ar y cefn fel y gallwch ei hongian.



**06** Bydd eich symudyn yn edrych yn ddiddorol iawn wrth iddo droelli, gan atgoffa pawb sy'n ei weld i ofalu am ein planed hardd.



Gallwch brintio, lliwio a thorri'r templed hwn allan.

